Mwy na swydd!

# ACADEMI GOFAL GWYNEDD

More than a job!

CYNGOR GWYNEDD



www.gwynedd.llyw.cymru/AcademiGofalGwynedd

# Croeso

Annwyl Ymgeisydd

Diolch i chi am ddangos diddordeb yn Academi Gofal Gwynedd.

Mae'r Cyngor yn darparu amryw o wasanaethau Gofal i drigolion Gwynedd er mwyn sicrhau bod pobl yr ardal yn cael y gefnogaeth orau bosib yn eu cymunedau, gan warantu bod llesiant, urddas ac annibyniaeth unigolion yn cael eu parchu. Yn yr un modd, rydym fel Cyngor yn sicrhau bod defnyddwyr ein gwasanaethau yn cael y gwasanaeth yn ei dewis iaith ac felly mae'r gallu i siarad neu ymrwymiad i ddysgu Cymraeg yn hollbwysig yn y maes yma.

Drwy Academi Gofal Gwynedd mi wnawn ein gorau i geisio sicrhau y cewch brofiadau yn y maes ac mi wnawn eich cefnogi wrth i chi ennill cymwysterau perthnasol.

Am fwy o wybodaeth gweler ein gwefan:

**www.gwynedd.llyw.cymru/AcademiGofalGwynedd**

**Neu sganiwch y cod QR**



# Allwch chi weithio mewn Gofal?



Ydych chi yn:

| | |
|---|---|
| Garedig? | ☐ |
| Gyfeillgar? | ☐ |
| Amyneddgar? | ☐ |
| Empathetig? | ☐ |
| Oes gennych chi galon fawr? | ☐ |
| Allech chi newid bywydau? | ☐ |
| Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth? | ☐ |

**Does dim angen profiad, dim ond y ❤ i helpu! Bydd hyfforddiant a chefnogaeth lawn ar gael, fydd yn arwain at gymhwyster proffesiynol.**

# Pam gweithio mewn Gofal?



Ddim yn siwr os mai Gofal yw'r yrfa i chi?
Sganiwch yr QR i gael blas o'r math o gyfleoedd sydd ar gael o fewn y maes yma yng Ngwynedd!

Mae gweithio o fewn Gofal mor amrywiol a gwobrwyol. O blant bach i'r henoed, mae rhywun yn ein cymuned angen eich cefnogaeth. Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth?

Efallai bydd y fideos astudiaethau achos o unigolion sydd eisoes yn gweithio yn y sector Gofal Cymdeithasol yn eich helpu i wneud penderfyniad. Gallwch wylio'r rhain ar wefan Gofalwn Cymru.

# Ein gwaith yma yng Nghyngor Gwynedd

Ein huchelgais yw gweld pawb  yng Ngwynedd yn...

**Amcanion Llesiant**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

Byddwn yn gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar...

**Blaenoriaethau Gwella**

- Greu economi hyfyw a ffyniannus
- Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial
- Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir
- Sicrhau mynediad at gartref addas
- Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

...fydd yn cael ei gynnal gan holl Adrannau'r Cyngor.

# Amlinelliad o Amodau a Thelerau Gwaith Cyffredinol

Yn ogystal â boddhad swydd a chyfle i wneud cyfraniad gwerthfawr, mae'r Cyngor yn awyddus i chi gael y gwerth mwyaf o fod yn aelod o staff. Oherwydd hyn, ceir mynediad i lawer o fuddion ar draws y sir. Am fwy o wybodaeth gweler -

Buddion o weithio i ni

neu sganiwch y cod QR




# Llwybrau i mewn i yrfa mewn Gofal

Os am ddod draw am flas o weithio yn y sector Gofal neu os ydych angen cymorth i gyrraedd eich swydd ddelfrydol gall yr Academi Gofal eich helpu.

Mae gennym amrywiaeth eang o wahanol opsiynau ar gael er mwyn eich arwain a'ch cynghori wrth i chi ddewis eich gyrfa.



# Ble mae gwasanaethau Gofal Gwynedd?




**Mae gennym Ofalwyr a Gweithwyr Cefnogol sy'n teithio ledled y sir.**

# Ymweliadau Safle

14+

Oes gennych chi **wir** ddiddordeb yn y maes Gofal? Ydych chi yn awyddus i wybod mwy am waith Gofal, unai cyn dewis astudio Iechyd a Gofal ymhellach neu cyn camu mewn i'r byd gwaith?

Mae rhai o wasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd yn barod i agor eu drysau i bobl sydd eisiau deall mwy am y sector, deall mwy am y math o swyddi sydd ar gael, a deall mwy am beth mae gweithio yn y maes wir yn ei olygu. Rydym yn hapus i groesawu pawb sydd â diddordeb dilyn gyrfa yn y maes.

Wrth ddilyn y linc isod gellir gweld yr holl wasanaethau sydd yn fodlon cynnig ymweliadau safle. Mae'r pecyn yn cynnwys mwy o fanylion am y gwasanaethau, pa ddyddiau o'r wythnos y gallent eu cynnig a'r niferoedd all fynychu ar y tro. Mae pob gwasanaeth yn wahanol felly darllenwch bob cynnig yn ofalus.

Recriwtio a gyrfa mewn gofal cymdeithasol



# Gwirfoddoli

**Oedran i'w gytuno gyda'r gwasanaeth 16+**

Mi allwn drefnu cyfnod o wirfoddoli o fewn ein gwasanaethau. Efallai eich bod angen gwirfoddoli fel rhan o'ch BAC Cymraeg neu eich bod eisiau gwirfoddoli er mwyn cael blas o weithio yn y maes. Beth bynnag yw eich rheswm mi allwn eich helpu.
Er mwyn gwneud trefniadau i wirfoddoli cysylltwch â gofalu@gwynedd.llyw.cymru

Un o'r gwasanaeth sydd yn derbyn gwirfoddolwyr yw Amser Ni. Mae Amser Ni yn mynd â phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol ar weithgareddau hwylus gan gynnwys aros dros nos.


Fel gwirfoddolwr bydd disgwyl i chi sicrhau bod pawb yn hapus ac yn cael amser da

Byddem hefyd yn disgwyl i chi gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynlluniwyd.

Byddwch yn cefnogi gyda gweithgareddau, ddydd neu nos.

Byddwch yn cefnogi staff i arwain gweithgareddau a digwyddiadau

Gwasanaeth arall sydd yn derbyn gwirfoddolwyr yw Llwybrau Llesiant. Mae Llwybrau Llesiant yn mynd ag oedolion sydd ag anghenion ychwanegol ar weithgareddau hwylus.







# Profiad gwaith

16+

Mae gan y sector Gofal Cymdeithasol lawer o opsiynau gyrfa i'w cynnig. Beth am ddod atom ni am gyfnod o brofiad gwaith i gael blas ar y math o waith sydd ar gael ac i gael cipolwg o weithio yn y sector?

Mae nifer fawr o'n gwasanaethau yn barod i agor eu drysau i'ch croesawu chi. Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfnod o brofiad gwaith mewn cartref gofal, gwasanaethau dydd, yn cefnogi yn ein timau plant neu'n cysgodi Gweithwyr Cymdeithasol neu Therapyddion Galwedigaethol gallwn eich helpu.

I ymgeisio am brofiad gwaith, gofynnwn yn garedig i chi gwblhau ffurflen gais gyda mwy o fanylion amdanoch eich hun a pham yr hoffech chi gwblhau profiad gwaith gyda ni. Manylion llawn, pecyn opsiynau a ffurflen gais ar gael drwy ddilyn y linc yma -

Recriwtio a gyrfa mewn gofal cymdeithasol

**neu sganiwch y cod QR**

Edrychwn ymlaen at eich cael chi draw i'n gwasanaeth ar brofiad gwaith hefo ni.



# Swyddi

Rydym bob amser yn edrych i recriwtio gweithwyr newydd i'r maes Iechyd a Gofal ar draws cymunedau Gwynedd. Mae swyddi llawn a rhan amser ar gael, gyda thelerau gwaith da ac oriau cyson.

Mae rôl i bawb:

- Gweithwyr Gofal
- Swyddi rheolaethol a gweinyddu
- Arlwyo.

Os oes gennych yr awydd i helpu a gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned yna mae cyfleoedd ar gael i chi o fewn ein gwasanaethau Gofal.
Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig hyfforddiant llawn a'r cyfle i helpu trigolion bregus y sir i fyw bywydau mor llawn â phosib.

Mae nifer o wasanaethau a rolau gwahanol ar gael ar hyd a lled Gwynedd, gyda chyfle i ymuno â thîm sydd am wneud y gorau i bobl Gwynedd.

- Ein gwasanaeth Gofal Cartref
- Ein Gwasanaeth Anableddau Dysgu
- Ein cartrefi preswyl
- Gofal Dydd
- Gwasanaethau Plant.

Byddwch yn helpu pobl i fyw eu bywyd fel maen nhw'n dymuno ei fyw.

Mae cyfleoedd datblygiadol ar gael i bawb sydd yn gweithio yn adrannau plant neu oedolion.

**Diddordeb? Sganiwch y cod QR;**



# Academi Gofal Gwynedd

17+

Mae'r cynllun yn gyfle unigryw i unrhyw un ddatblygu gyrfa yn y sector Gofal drwy Cyngor Gwynedd. Byddwch yn derbyn profiadau ymarferol ac yn cael amryw o gyfleoedd i ddatblygu drwy gael eich mentora gan arbenigwyr yn y maes. Bydd cyfleoedd datblygu parhaus ar gael i chi gael meithrin a datblygu eich sgiliau i sicrhau gyrfa hir a llwyddiannus o fewn gwasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.

Gyda llwybrau amrywiol drwy'r Academi Gofal, p'un a ydych yn chwilio am rôl mewn Rheoli Gofal, dod yn Weithiwr Cymdeithasol neu'n Therapydd Galwedigaethol, mae posibilrwydd datblygu drwy'r Academi i rôl sy'n addas i chi. Mae'r sector bob amser angen aelodau tîm brwdfrydig i gefnogi pobl ledled Gwynedd.

Os ydych chi erioed wedi meddwl y byddech chi'n hoffi gwneud gwahaniaeth wrth gefnogi pobl yn eu cymunedau mae'r Academi Gofal yn berffaith i chi.

Am fwy o wybodaeth gweler ein gwefan:

Academi Gofal Gwynedd

**neu sganiwch y cod QR**



# Manteisio ymuno â'r Academi



Ennill cyflog wrth ddysgu


Datblygu llwybrau gyrfa glir



Cwblhau cymwysterau o werth



Derbyn cefnogaeth a chymorth profiadol



# Gofynion Sylfaenol

Bydd angen TGAU gradd C neu gyfwerth ar yr ymgeiswyr llwyddiannus naill ai mewn Cymraeg neu Saesneg.

Mae yn ddymunol bod gan yr ymgeiswyr llwyddianus TGAU Mathemateg gradd C neu gyfwerth neu yn barod i weithio tuag at gael y cymhwyster.

Nid oes angen profiad blaenorol, ond mi all fod yn fanteisiol. Beth am ddod atom ni am brofiad gwaith, gwirfoddoli neu gwaith rhan amser? Mae manylion am sut i drefnu yn y pecyn.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n llawn cymhelliant, sydd ag agwedd garedig a gofalgar ac sydd am wneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill.

Bydd angen i chi ddangos eich bod yn berson sensitif, gonest a dibynadwy gyda'r gallu i weithredu mewn modd sy'n parchu hawliau'r unigolion bob amser ac yn dangos parodrwydd i ddatblygu.

Cymraeg yw prif iaith y Cyngor, mae gofyn bod gennych y gallu i gyfathrebu yn hyderus drwy'r Gymraeg neu eich bod yn dangos parodrwydd i fanteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eich sgiliau ieithyddol. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg ymhellach, a hynny ar pob lefel.



# Datblygu drwy'r Academi

Ymuno â'r Academi

Cyfnod anwythiad
Hyfforddiant allweddol a phrofiadau gwaith gyda'r tîm Oedolion, Plant ac Anableddau dysgu

Dewis lleoliad hir dymor

Cymhwyster mandadol Gofal, Chwarae, Dysgu, a Datblygiad Plant Lefel 2

Cymhwyster mandadol Iechyd a Gofal Lefel 2 (Oedolion)

Cymhwyster mandadol Iechyd a Gofal Lefel 3 (Plant)

Rhagdybir y bydd hi'n cymryd blwyddyn a hanner i gwblhau yr cymhwyster

Blwyddyn o waith yn y lleoliad hir dymor gan gymryd mwy o gyfrifoldeb e.e. meddyginiaeth

Yn arwain at opsiynau datblygu.

Rôl Pencampwr, Cymhwyster Lefel 3 e.e. Symud a Thrin, Dementia.

Cyfle i ymgeisio am swydd Uwch Weithiwr neu Ddirprwy a chwblhau cymhwyster rheoli Lefel 4 ac yna Lefel 5 mewn swydd Rheolwr.

Cyfle i ymgeisio am rôl Hyfforddai Therapi Galwedigaethol cwrs rhan amser gradd 4 blynedd drwy Brifysgol Wrecsam. Cwblhau wrth weithio.

Cyfle i ymgeisio i wneud cymhwyster Gradd Gwaith Cymdeithasol blwyddyn 1 drwy'r Brifysgol Agored.


Cyfle i ymgeisio am rôl Hyfforddai Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Agored blwyddyn 2. Cwblhau wrth weithio.



# Sut beth yw bod yn rhan o'r Academi Gofal?

Y rhan orau yw faint o wahaniaeth rydych chi yn ei wneud i fywydau'r unigolion a'u teuluoedd.

Mae'r Academi wedi rhoi llawer o gyfleoedd newydd i mi ac hefyd wedi agor drysau newydd.





Mae pob elfen o'r swydd yn hwylus. Dydw i ddim yn edrych nôl!

Mae Academi Gofal wedi rhoi'r siawns i mi wneud beth rwyf yn ei fwynhau orau. Dwi wir yn mwynhau gweithio gyda'r tîm anableddau dysgu – mae'n hynod o wobrwyol.





Fe wnaeth yr Academi fy nghefnogi i fynd ar y llwybr cywir i ymuno â'r sector Gofal. Mae wedi rhoi'r profiad sydd angen arnaf i wybod beth roeddwn i eisiau ei wneud o fewn y sector Gofal.

Dwi'n mwynhau yr amrywiaeth o gyfleoedd a chefnogaeth mae'r Academi Gofal yn ei gynnig.





# Ein Timau!

Gellir rhannu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol o fewn y Cyngor i adrannau:

- Plant a Chefnogi Teuluoedd
- Oedolion, Iechyd a Llesiant

Ceir fwy o fanylion am ein tîmau yn y tudalenau.








# Gwaith adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae'r adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion y sir.

Pwrpas yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywydau ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.

Mae sawl tîm o fewn yr adran ac yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. Ymyrraeth Gynnar
2. Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal
3. Timau Arbenigol

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.



# Sut beth yw gweithio yn y tîm Plant?

Ti'n gwybod bo' chdi'n gwneud gwahaniaeth i deuluoedd.



Mair Hughes
Gweithiwr Allweddol

Fyswn i yn argymell rywun i ddod i weithio i'r adran yma. 'Da ni yn gwneud gymaint o wahaniaeth i fywyd teuluoedd.



Emma Barton
Uwch Weithiwr Cefnogol

Cael boddhad mewn swydd o helpu rhywun a gweld gwahaniaeth.



Ceri Rhiannon
Gweithiwr Cymdeithasol

Mae pob dydd yn y swydd yn wobrwyol. Dwi'n mwynhau fy swydd.



Linda Roberts
Gweithiwr Cefnogol

Ar ddiwedd y dydd, 'da ni yma i helpu.



Eleri Jones
Gweithiwr Cefnogol

Mae'r teimlad rwyt ti yn cael o weithio hefo pobl yn lot fwy gwerthfawr na phres.



Alaw Paul
Gweithiwr Cymorth Ieuenctid

# Gwaith adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae'r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau Gofal Cymdeithasol i drigolion y sir sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol.

Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu nifer fawr o wasanaethau gwahanol i gefnogi trigolion Gwynedd. Canran bach ond pwysig iawn o'r gwasanaethau a ddarperir ydi - cartrefi preswyl, gwasanaethau dydd  a gofal cartref.

Amcan y gwasanaethau yw darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i alluogi, cefnogi a hyrwyddo pobl i fyw bywydau bodlon ac mor annibynnol ag sy'n bosib. Bydd yr adran yn canolbwyntio ar fywyd y defnyddiwr, gan gynnig gwasanaeth hyblyg,  sy'n canolbwyntio ar y person ac wedi ei selio ar ansawdd ac emosiwn. Bydd yr adran yn hyrwyddo'r unigolion sydd yn defnyddio'r gwasanaeth i gael llais, rheolaeth a dewisiadau dros eu bywydau eu hunain ac o'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Bydd yr adran y ceisio cyfarch a hyrwyddo anghenion corfforol, emosiynol, meddyliol neu gymdeithasol unigolion.

Nod yr adran ydi galluogi oedolion Gwynedd i: 'Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw.'



# Sut beth yw gweithio yn y Tîm Oedolion?

Beth sy'n sefyll allan fwyaf ydi pa mor rewarding ydi'r job.



Lia Roberts
Swyddog Prosiect Dementia Actif Gwynedd

Mae gwahanol elfennau i'r swydd. Dwi yn hoffi'r gwahaniaeth dwi'n gallu gwneud i fywydau pobl.



Emma Quaeck
Rheolwr Prosiect Dementia Actif Gwynedd

I rywun sy'n hoff o sialens, mae'r swydd yma'n berffaith.



Gillian Owen
Cydlynydd Gofal Cymunedol

Dwi'n mwynhau'r amrywiaeth. Mae gwaith gofal yn rhoi cyfleoedd amrywiol i bawb.



Huw Ceiriog
Rheolwr Cofrestredig

Mae rôl fi mor amrywiol.



Keneuoe Morgan
Rheolwr Cynorthwyol Cartref Gofal

# Gwasanaeth Anableddau Dysgu

Mae'r gwasanaethau Anableddau Dysgu yn dod o dan adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

Pwrpas y gwasanaethau yw cyfarch a hyrwyddo anghenion llesiant unigolion ag anabledd dysgu. Boed hynny'n anghenion corfforol, emosiynol, meddyliol neu gymdeithasol. Bydda angen sicrhau bod y gwasanaethau yn cyfarch be sy'n bwysig i unigolion ag anabledd dysgu a'u gofalwyr.

Er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion yn cael eu cyfarch yn llawn, bydd ystod eang o'n gwasanaethau'n aml yn cael eu cynnig mewn partneriaeth. Gall hyn fod yn gefnogaeth i fyw yn annibynnol, cefnogaeth yn y gymuned, a llawer mwy.

Mae'r gwasanaethau Anabledd Dysgu yn canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chynnig gwasanaethau sydd yn cael eu harwain gan yr unigolion a'u gofalwyr.

Mae'r maes Anableddau Dysgu mor amrywiol. Mae'n gyfle i fagu profiad a sgiliau i wella eich dealltwriaeth ar sut i gefnogi unigolion gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae sgôp mawr i ddatblygu yn y maes.



# Sut beth yw gweithio yn y tîm Anableddau dysgu?

Dwi'n hoffi cael mynd i gyfarfod pobl.



Marc Bentham
Gweithiwr Cymdeithasol

Dwi'n caru'r swydd. Di'r un dau ddiwrnod byth r'un peth.



Chris Roberts
Gweithiwr Cefnogol

Dwi erioed wedi bod mor hapus.



Meical Morris
Cymhorthydd Gofal

Mae wedi newid bywyd fi am y gorau, fyswn i byth yn sbio nôl rŵan.



Carys Jones
Cymhorthydd Gofal



# Cyfleoedd Cymwysterau



# Lefel 2 Gofal ac Iechyd Oedolion

Mae'r cymhwyster yma yn cynnwys 5 uned sydd yn seiliedig ar wybodaeth:

- Egwyddorion a gwerthoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Iechyd a Lles
- Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Diogelu unigolion
- Iechyd a Diogelwch mewn Iechyd a Gofal

Unwaith y bydd yr unedau craidd wedi'u cwblhau, byddwch wedyn yn symud ymlaen i'r rhan ymarferol o'r cymhwyster. Ar gyfer gweithwyr Gofal byddwch yn gweithio tuag at gymhwyster lefel 2. Yn dilyn trafodaeth gyda'ch mentor byddwch yn dewis unedau lle mae gennych chi ddigon o dystiolaeth ar eu cyfer.





# Lefel 2/3 Gofal ac Iechyd Plant

Mae'r cymhwyster yma yn cynnwys 5 uned sydd yn seiliedig ar wybodaeth:

- Egwyddorion a gwerthoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Iechyd a Lles
- Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Diogelu unigolion
- Iechyd a Diogelwch mewn Iechyd a Gofal

Unwaith y bydd yr unedau craidd wedi'u cwblhau, byddwch wedyn yn symud ymlaen i'r rhan ymarferol o'r cymhwyster a fydd ar lefel 3. Yn dilyn trafodaeth gyda'ch mentor am dasgau dyddiol byddwch wedyn yn dewis unedau lle mae gennych chi ddigon o dystiolaeth ar eu cyfer.

# Rheolwr cofrestredig




**Sharron Jones**
**Rheolwr Cartref Preswyl**


**Er mwyn datblygu i fod yn Rheolwr mae angen cwblhau Lefel 4 a 5 Iechyd a Gofal**


Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli -
Mae'r cymhwyster yn cynnwys yr unedau canlynol;

- Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau ymarfer person/plentyn-ganolog
- Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau Iechyd a Gofal cymdeithasol

Unwaith bydd y lefel 4 wedi'i chwblhau, byddwch wedyn yn symud ymlaen i'r rhan ymarferol o’r cymhwyster sef lefel 5.
Yn dilyn trafodaeth gyda'ch mentor ar y tasgau byddwch yn eu cynnal yn ddyddiol byddwch wedyn yn dewis unedau lle mae gennych chi ddigon o dystiolaeth ar eu cyfer.







# Therapydd Galwedigaethol

Nod Therapi Galwedigaethol (Occupational Therapy) yw gwella gallu person i wneud tasgau bob dydd os yw unigolyn yn wynebu anawsterau.

Mae Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio gyda phobl o bob oed i edrych ar bob agwedd o fywyd bob dydd yn eu cartref, ysgol neu weithle. Maent yn edrych ar weithgareddau rydych chi'n eu cael yn anodd ac yn gweld a oes ffordd arall y gallwch chi eu gwneud. Byddant yn gwneud asesiadau ar unigolion sydd yn dod adref o'r ysbyty er enghraifft, gan weld pa addasiadau sydd angen gwneud i'r cartref i fyw bywyd cyfforddus e.e. rhoi stairlift mewn, trefnu bod cadair olwyn ar gael ayyb.

Mae nifer o dimau Therapi Galwedigaethol yng Ngwynedd sydd yn gwasanaethu oedolion, plant ac unigolion hefo anableddau dysgu ar draws y sir. Gallwn leoli chi gyda thîm yn yr ardal fwyaf cyfleus i chi.

**Er mwyn llwyddo i fod yn Therapydd Galwedigaethol bydd angen cwblhau gradd drwy Prifysgol Wrecsam.**
**Bydd y gradd yn cael ei gyllido gan yr Academi.**



# Gweithiwr Cymdeithasol




**Dylan Owen**
**Gweithiwr Cymdeithasol**

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion a'u teuluoedd gan eu helpu i fyw eu bywydau yn fwy llwyddiannus.

Fel Gweithiwr Cymdeithasol byddwch yn gweithio gyda phobl i ddarganfod datrysiadau i'w problemau. Gall hyn olygu rhoi llais i unigolion, amddiffyn pobl fregus rhag niwed a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol. Mae nifer o dimau Gwaith Cymdeithasol gwahanol o fewn y Cyngor gan gynnwys - timau plant, timau oedolion, timau anabledd dysgu a thîm iechyd meddwl.

**Er mwyn llwyddo i fod yn Weithiwr Cymdeithasol bydd rhaid cwblhau gradd B.A Gwaith Cymdeithasol drwy'r Prifysgol Agored.**
**Bydd hwn yn cael ei gyllido drwy'r Academi.**

Mae hon yn gwrs gradd 3 mlynedd. Bydd dau gam i gwblhau'r cymhwyster;
**Cam 1**: Ymgeisio am flwyddyn cyntaf y radd.
Blwyddyn 1 - Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol
C**am 2** - ymgeisio am yr 2il a 3ydd flwyddyn o'r radd (nid yw yn angenrheidiol eich bod yn gwneud hyn yn syth ar ôl gorffen y flwyddyn gyntaf)
Blwyddyn 2 - Y gyfraith o fewn Gwaith Cymdeithasol
Blwyddyn 3 - Ymarfer Gwaith Cymdeithasol hanfodol a dewis o un o'r modiwlau canlynol; Iechyd meddwl, Iechyd a Gofal Cymdeithasol, rheoli ac arwain, bywydau ifanc



# Cwestiynau cyffredinol

**A oes terfyn oedran?**
Nid oes terfyn oedran, ond mae angen i chi fod yn 17 oed neu'n hŷn i wneud cais am y swyddi hyn.

**Mae gennyf radd yn barod, ydw i yn gymwys?**
Ydych- rydym yn derbyn ceisiadau gan y rhai sydd eisoes wedi bod drwy addysg uwch, ond bydd angen i bob ymgeiswyr ddilyn strwythur addysgu yr Academi.

**Oes angen talu ffioedd addysg?**
Telir am yr holl gyrsiau a chymwysterau rydych wedi cofrestru arnynt fel rhan o'r Academi Gofal yn llawn gan y Cyngor. Os yn cwblhau un o'r cyrsiau gradd mae disgwyliad i chi ymrwymo i weithio i'r Cyngor am gyfnod amser yn dilyn cymhwyso.

**Beth os nad wyf am wneud yr holl gymwysterau?**
Drwy gydol eich amser ar yr Academi Gofal byddwch yn derbyn cefnogaeth lawn i gyrraedd bob carreg filltir allweddol gan sicrhau y gallwch symud ymlaen i'r cymhwyster nesaf. Os byddwch yn penderfynu ar un o'r cerrig milltir hyn nad ydych am symud ymlaen ymhellach, yna byddwn yn eich cefnogi i chwilio am swydd lawn amser o fewn y sector Gofal sydd yn cyfateb a'ch cymwysterau.

**Pam mae angen Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan arnaf ar gyfer Iechyd a Gofal cymdeithasol (AWIF)?**
Mae angen i chi fod wedi cwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AWIF) fel rhan o'r cofrestriad i weithio fel gweithiwr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae hwn yn ofyniad gan Ofal Cymdeithasol Cymru.
Fframwaith sefydlu ar gyfer Iechyd a Gofal.

**Beth os nad ydw i'n llwyddo mewn lefel?**
Byddwch yn cael eich cefnogi gan fentor o fewn eich lleoliad yn ogystal â chael cefnogaeth Cydlynydd yr Academi. Bydd y mentoriaid yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd i gyrraedd eich llawn botensial.

**Ydych chi'n cefnogi pobl ag anableddau?**
Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal, gyda chymorth ar gael i'ch helpu i gyflawni eich nodau gyrfa.

**Beth yw hyd y cynllun?**
Bydd hyd y cynllun yn dibynnu ar y llwybr gyrfa rydych yn penderfynu ei ddilyn. Bydd gennych gytundeb am o leiaf y 3 blynedd cyntaf o'r cynllun.

**A oes sicrwydd swydd ar ddiwedd y cynllun?**
Bydd pob ymdrech posibl yn cael ei wneud i sicrhau bod yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael pob cyfle posib i dderbyn swydd wedi'r cynllun.

**Oes angen profiad yn y maes penodol cyn gallu ymgeisio am y swydd?**
Nac oes, nid oes angen profiad blaenorol. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn berson sensitif, gonest a dibynadwy gyda'r gallu i weithredu mewn modd sy'n parchu hawliau'r unigolion bob amser ac yn dangos parodrwydd i ddatblygu.

**Ble fydd lleoliad yr swydd?**
Mae cyfleoedd ar gael dros y sir, byddwn yn trio eich lleoli mor agos i'ch cartref â phosib.
Mae gofyn i chi dreulio amser yng Nghaernarfon yn ystod y cyfnod sefydlu ac i deithio i ddiwrnodau datblygiadol.

# Sut i ymgeisio

Edrychwch allan ar ein cyfryngau cymdeithasol am wybodaeth pan fydd swyddi yn cael eu hysbysebu.

Bydd y swyddi ar gael ar wefan swyddi Cyngor Gwynedd, neu drwy ddilyn y cod QR

Darllenwch y swydd ddisgrifiad a'r manylion person yn ofalus byddwch angen defnyddio'r wybodaeth a roddir yma i ateb eich cais yn llwyddiannus.

Wrth ymgeisio ar y we:

- Dewiswch yr opsiwn Ymgeisio ar lein.
- Bydd angen Creu cyfrif newydd, neu fewngofnodi.
- Gallwch arbed eich cais a dod yn ôl ato ar unrhyw bwynt cyn y dyddiad cau i wneud newidiadau / addasiadau.
- Bydd eich sesiwn yn dod i ben ar ôl 20 munud o wneud dim a bydd unrhyw waith diweddar yn cael ei golli. Er mwyn atal hyn mae angen i chi arbed eich gwaith yn aml. Bydd arbed eich gwaith yn mynd â chi yn ôl i dudalen Fy Nghais.

Pob lwc!





**Am fwy o wybodaeth;**

**www.gwynedd.llyw.cymru/AcademiGofalGwynedd**

**gofalu@gwynedd.llyw.cymru**

